# Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 01-07 (p1)

### Dyddiad: 24 Ionawr 2007
### Amser: 09:00 - 12:10
### Lleoliad: Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2, Y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Adroddiad y Gweinidog

#### Diben

1. Rhoi'r manylion diweddaraf ynghylch amryfal faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

#### Argymhelliad

2. Bod aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

#### Y Cefndir

3. Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 29 Tachwedd 2006. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf.

#### Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru

Bûm yn cyfarfod ag uwch gynrychiolwyr Sefydliad y Smithsonian i drafod y posibiliadau am bresenoldeb Cymreig yng Ngwyl Bywyd Gwerin y Smithsonian yn y Mall yn Washington DC yn ystod wythnos olaf mis Mehefin ac wythnos gyntaf mis Gorffennaf 2009. Roedd y cyfarfod yn gyfraniad cadarnhaol i'r drafodaeth sy'n mynd rhagddi â'r Smithsonian, sy'n hanfodol i wneud y gorau posibl o bresenoldeb Cymreig yn 2009.

### Materion Eraill

#### Cyd-Gyngor y Gweinidogion (Ewrop) 27 Tachwedd 2006

Roedd trafodaethau Cyd-Gyngor y Gweinidogion (Ewrop) yn canolbwyntio ar y paratoadau ar gyfer y Cyngor Ewropeaidd ar 14/15 Rhagfyr ym Mrwsel. Mae mwy o wybodaeth yn Atodiad A.

#### REACH (Cofrestru, Gwerthuso ac Awdurdodi Cemegau)

Ar 18 Rhagfyr, daeth Senedd Ewrop i gytundeb terfynol ar strategaeth gemegau newydd ar gyfer yr

Undeb Ewropeaidd; sef REACH.

Mae tua 100,000 o sylweddau gwahanol wedi'u cofrestru yn yr UE. Caiff oddeutu 30,000 o'r sylweddau hyn eu cynhyrchu neu eu mewnforio mewn llwythi o fwy na thunnell. Dim ond ar gyfer cyfran fechan o'r cemegion y mae data digonol ar effeithiau amgylcheddol ac effeithiau ar iechyd ar gael.

Y cynnig yw cael un system i gasglu gwybodaeth am beryglon, asesu risgiau, categoreiddio sylweddau, creu gofynion ar gyfer labelu, a rheoli'r ffordd y caiff cemegau a chymysgeddau eu marchnata a'u defnyddio. Mae mwy o wybodaeth yn Atodiad B.

## Hybu Ymwybyddiaeth o Faterion yr UE

Mae'r mater o gyfathrebu materion sy'n gysylltiedig â'r UE wedi dod fwyfwy i'r amlwg. Bu pwysigrwydd cyfathrebu a'r angen i bontio'r bwlch cyfathrebu yn thema gyson i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n amlwg bod angen hybu ymwybyddiaeth o faterion yr UE ac rwyf wedi cytuno ar raglen o fentrau gyda'm swyddogion i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd y gweithgareddau arfaethedig yn cynnwys gweithgareddau mewnol ar gyfer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a gweithgareddau allanol ar gyfer y cyhoedd ehangach yng Nghymru, fel Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd, darparu stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau allweddol a chynnal digwyddiadau gyda siaradwyr gwadd o sefydliadau yr UE. Lle y bo'n briodol, byddant yn rhan o raglen ailadroddus ac ni fyddant yn cael eu cyfyngu i 2007. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei hadolygu.

## Rhaglen Discover UK-Wales y Cyngor Prydeinig yn Tsieina

Mae Discover UK yn ymgyrch wybodaeth sy'n cael ei threfnu gan y Cyngor Prydeinig yn Tsieina i hyrwyddo pedair glwad y DU am dri mis yr un rhwng Mehefin 2006 a Mehefin 2007. Bydd Tymor Cymru yn rhedeg rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2007. Nod yr ymgyrch yw hyrwyddo pob agwedd ar Gymru i'r cyhoedd yn Tsieina, er mwyn cynyddu lefel eu hymwybyddiaeth ohoni. Mae'n defnyddio amryw ddulliau i wneud hyn, gan gynnwys: sianelau ar-lein, cyhoeddiadau papur a digwyddiadau. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn cysylltu â'r Cyngor Prydeinig yn Tsieina yn uniongyrchol, ac maent wedi darparu deunyddiau hyrwyddo ar gyfer y deunyddiau ar-lein a'r deunyddiau papur, gan gynnwys arddangosfeydd yn ei bedair swyddfa. Mae'r Cyngor Prydeinig yn ystyried hyn fel peilot a gallai ei roi ar waith mewn gwledydd eraill yn y dyfodol.

## Newyddion o Ewrop

Ehangu – enillodd Bwlgaria a Rwmania statws UE swyddogol ar 1 Ionawr 2007. Mae'r ffaith eu bod yn aelodau bellach y golygu bod gan yr UE 27 o aelodau a hanner biliwn o ddinasyddion. Mae Rwmania'n dod â 22 miliwn o bobl i'r Undeb; tra bod Bwlgaria'n dod â 7.7 miliwn pellach.

Slofenia'n mabwysiadu'r Ewro – Ar 1 Ionawr 2007, Slofenia oedd y wlad gyn-gomiwynddol gyntaf yn Ewrop i fabwysiadu'r Ewro fel ei harian. Slofenia yw'r gyntaf o 10 aelod yr UE a ymunodd yn 2004 i fodloni'r gofynion economaidd er mwyn ymuno â'r arian sengl. Dyma'r drydedd wlad ar ddeg i

ymuno ag ardal yr Ewro.

Ardal yr Ewro – Ym mis Rhagfyr, cododd cyfradd llog ardal yr Ewro i 3.5%. Dyma'r chweched cynnydd o chwarter canran yn y 12 mis diwethaf. Mae llawer o ddadansoddwyr yn disgwyl y bydd y gyfradd yn codi eto yn nechrau 2007 i 3.75%.

Cyfansoddiad yr UE - Ym mis Rhagfyr, y Ffindir oedd y wlad ddiweddaraf i gadarnhau'r Cyfansoddiad Ewropeaidd. Pleidleisiodd senedd y Ffindir 125 i 39 o blaid ei gadarnhau, gyda phedwar yn atal eu pleidlais. Mae un ar bymtheg o'r pump ar hugain o wledydd yr UE bellach wedi cadarnhau'r cyfansoddiad

Yr Wyddeleg – Mae'r Wyddeleg wedi ennill statws yr UE; bellach, mae 23 o ieithoedd swyddogol yn yr UE. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i'r Undeb ddrafftio a chyfieithu pob deddf dros dro i'r Wyddeleg, gan gynnwys dyfarniadau'r Llys Cyfiawnder.

**Rhodri Morgan AC**
**Prif Weinidog Cymru**